# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR DYDD LLUN, 14 RHAGFYR 2015

**Yn bresennol:** John Brynmor Hughes (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen W. Churchman, Anwen J. Davies, Aled Ll. Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Aled Wyn Jones, Michael Sol Owen, Hefin Underwood, Gruffydd Williams a R. H. Wyn Williams

**Hefyd yn bresennol:**

**Tmddiheuriadau:** Gweno Glyn, Simon Glyn, Peter Read, W. Gareth Roberts, Angela Russell, Eirwyn Williams a Owain Williams

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wyn Jones

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Gweno Glyn, Simon Glyn, Peter Read, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams ac Owain Williams.

## 2. CYFLWYNIAD GAN GYNRYCHIOLWYR BANC BWYD PWLLHELI

Derbyniwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr Banc Bwyd Pwllheli.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad a llongyfarchwyd y Banc Bwyd ar eu gwaith.

Pwyntiau Gweithredu:

- Anfon dolen gyswllt at fanylion cyswllt clercod cynghorau Cymuned/Tref i gynrychiolwyr y Banc Bwyd;
- Anfon neges at y Prif Weithredwr yn galw ar y Cyngor i roi cymorth ariannol i'r Banc Bwyd.

## 3. ARGYFWNG TAI YN YR ARDAL

Derbyniwyd cyflwyniad ar y cyd gan yr Uwch Reolwr Tai, Rheolwr Tai Strategol ac Arweinydd Tîm Opsiynau Tai ar y sefyllfa dai, angen lleol a sut mae'r Cyngor yn ymateb i'r angen.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.

Ymatebodd y swyddogion i'r cwestiynau gyda Phennaeth Cyflenwad Tai, Llywodraeth Cymru yn ymateb o ran y sefyllfa genedlaethol.

Pwyntiau Gweithredu:

- Tîm Opsiynau Tai i gysylltu efo aelodau lleol pan ceir anhawster gosod tai penodol yn eu cymunedau;

- Anfon copi o’r cyflwyniad at yr aelodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 y.h. a daeth i ben am 8.25 y.h.

---

**CADEIRYDD**